Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig a gynhaliwyd yn Hen Ysgol Trefeurig am 7.00pm ar Ddydd Mawrth, 15 Mawrth 2011

PRESENNOL: Y Cyng. Trefor Davies (Cadeirydd); Richard Owen; D M Hughes; Daniel Jones; D Sheppard; D R Morgan; Mrs G Price; Tegwyn Lewis a'r clerc Mrs P A Walker.
Roedd y Cyng. Sir D Suter hefyd yn bresennol

3007 Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth y Cyng. Mrs Edwina Davies; Melvyn Evans a Mrs Kari Walker

3008 **Materion Personol:** Llongyfarchwyd Y Cyng. Trefor Davies a'i wraig ar enedigaeth eu hwyres fach gyntaf

3009 **Datgan Buddiant Personol/Rhagfarnol:** Dim

3010 **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2011 fel cofnod cywir. Trafodwyd yr eitemau canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion:-

Cofnod 2986 - Gosod Cofnodion yn Archifau Ceredigion: Yn ogystal â'r Llyfrau Cofnodion PENDERFYNWYD gosod ffeiliau sydd wedi darfod mewn perthynas ag (1) yr hers geffylau a werthwyd yn 1982 a (2) Gohebiaeth parthed Elusen Jones & Lewis

Cofnod 2989 - Ymgynghoriad ar ail-ddosrannu tai fforddiadwy: Rhoddodd Y Cyng. D Sheppard amlinelliad o gynnwys y ddogfen ymgynghori a'r cynigion i wella'r dull o ddosrannu tai fforddiadwy yng Nghanolbarth Cymru. PENDERFYNWYD ei nodi.

Cofnod 2991 – Lamp Llwybr Troed, Maes yr Efail: Dywedodd Y Cyng. Sir D Suter y byddai'n archwilio i'r posibilrwydd o gael bylb newydd i'r lamp sydd wedi torri.

Cofnod 3006 – Materion Priffyrdd: Nodwyd bod yr Adran Briffyrdd wrthi ar hyn o bryd yn rhoi sylw i faterion amrywiol o fewn y Gymuned gan gynnwys tyllau yn y ffyrdd.

3011 **Penodi Clerc:** PENDERFYNWYD trafod yr eitem hon ar ôl y Materion Ariannol.

3012 **Adroddiadau ar Gyfarfodydd a fynychwyd gan yr Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned:**

SSE – Cynllun Fferm Wynt Nant y Moch:
Adroddodd y Cyng. Richard Owen ar y Cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhalybont ar 23 Chwefror 2011. Nid oedd y cynrychiolwyr SSE oedd yn bresennol yn fodlon ail-drafod yr Arian Budd Cymunedol sy'n daladwy ar y prosiect yma. Daeth y Cyfarfod i ben gyda'r ddogfen Datganiad Cynnwys y Gymuned yn dal i fod heb ei harwyddo gan Aelodau'r Grŵp Cyswllt Cymunedol.

Cyfarfod PACT, Penrhyncoch: Dywedodd Y Cyng. DM Hughes mai goryrru rhwng Neuadd y Penrhyn â'r Ysgol oedd y prif bryder mewn cyfarfod PACT diweddar, yna'r broblem baw cŵn. Mae trefniadau amgen ar gyfer cyfarfodydd PACT yn cael eu hystyried.

Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig: Adroddodd Y Cyng. Trefor Davies mai'r gobaith oedd y byddai cyhoeddusrwydd a gafwyd yn y Wasg yn ddiweddar yn help i godi arian. Disgwylir o hyd am ganlyniad y cais am arian loteri ac mae Ceredigion wedi ymestyn prydles y Grŵp ar yr adeilad am 3 mis arall.

GOHEBIAETH

3013 **Biniau Baw Cŵn - Ardal Chwarae Penrhyncoch:** Cydnabyddiaeth gan Adran Briffyrdd Ceredigion bod y biniau baw cŵn yn cael eu gwagio bob pythefnos erbyn hyn. Mewn ymateb i gais gan PATRASA PENDERFYNWYD gofyn a ellid prynu dau fin arall gan Geredigion, a'u gosod un bob pen i lwybr troed yr ardal chwarae, ochr yn ochr â'r biniau sydd yno'n barod.

3014 **CS Ceredigion - Ceisiadau Cynllunio:** Hysbysiad oddi wrth yr Adran Gynllunio y bydd ceisiadau cynllunio ar gael i ymgyngoreion eu gweld ar y We yn y dyfodol agos - nis anfonir copïau papur. PENDERFYNWYD pasio hwn i'r clerc newydd i ddarparu cyfeiriad e-bost.

3015 **Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru – "Drysau Agored 2011":** Gwahoddiad i gymunedau i gymryd rhan mewn Cynllun Treftadaeth Ewropeaidd i roi cyhoeddusrwydd i safleoedd a digwyddiadau lleol yn ystod Medi 2011 – i hyrwyddo twristiaeth. PENDERFYNWYD ei nodi.

3016 **Un Llais Cymru – Hyfforddiant Cynghorwyr 2011:** Dosbarthwyd manylion Cyrsiau Hyfforddi yng Nghymru ymhlith yr aelodau. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau i fynychu.

3017 **Ray Ceredigion – Prosiect Chwarae Plant:** Adroddiad ar Arolwg o Ardaloedd Chwarae Cymunedol yng Nghymru yn 2009. PENDERFYNWYD ei nodi.

3018 **Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc:** Adroddiad ar y ddarpariaeth o Fannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu. PENDERFYNWYD ei nodi.

3019 **Ynni'r Fro – Ynni Adnewyddadwy:** Gwahoddiad i ystyried prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol. PENDERFYNWYD ei ystyried mewn cyfarfod pellach.

MATERION ARIANNOL

3020 **HSBC – Mandad Banc:** Dosbarthwyd ffurflen mandad banc newydd i'r aelodau ei harwyddo. PENDERFYNWYD pasio hon ymlaen i'r clerc newydd ei chwblhau a'i chyflwyno i'r Banc er mwyn gallu llofnodi sieciau yn y Cyfarfod nesaf.

3021 **Cyflog y Clerc a Lwfans Car:** Cyhoeddwyd hysbysiad o gynnydd yn nhaliadau clercod gan yr NJC ym mis Medi 2009, yn daladwy o 1 Ebrill 2009. Ni dderbyniodd CC Trefeurig gopïau o'r hysbysiad tan fis Mawrth 2011. PENDERFYNWYD mabwysiadu'r raddfa a argymhellwyd ac ôl-ddyddio'r cynnydd yng nghyflog a chostau teithio'r clerc i 1af Ebrill 2009.

Talu Biliau: PENDERFYNWYD talu'r biliau canlynol:

3022 **Linda Griffiths** Cyfieithu Chwefror 2011: **£60.61** siec 1048

3023 **Neuadd y Penrhyn** hurio ystafell 07.03.2011: **£12** siec 1049

3024 **CG Hen Ysgol Trefeurig CC Ltd** hurio ystafell 15.03.2011: **£15** siec 1050

3025 **P A Walker -** **cyflog:** Ion/Maw 2011+ ôl-daliadau Ebrill 09 – Rhag 10: £666. 63
- **postio:** Ion/Maw 2011 : 31. 71
- **milltiroedd:** Ion/Maw 2011+ ôl-daliadau Ebrill 09-Rhag10: 57. 19

Cyfanswm: £755. 53 siec 1051

3026 **Swyddfa Bost Cyf.:** Bil BT hyd 11/03/11: £95.07 + TAW £18.85: **£113.92** siec 1052

3027 **PENODI CLERC:**

Yn dilyn cyfweliadau am swydd clerc rhan-amser ar gyfer CC Trefeurig PENDERFYNWYD penodi Mrs M A Jenkins o Lanfarian; Clerc Cymunedol profiadol. Bydd Mrs Jenkins yn dechrau gwaith ar 1 Ebrill 2011, ac yn gweithio saith awr yr wythnos ar y gyfradd NJC gymeradwy ar gyfer Graddfa LC1 (SCP) 17.

Bydd y clerc sy'n ymddeol oddi cartref rhwng 17 - 31 Mawrth 2011. PENDERFYNWYD y bydd Mrs Walker yn cwblhau Cofnodion Cyfarfod mis Mawrth 2011 ar ôl iddi ddychwelyd, ynghyd â'r ffigyrau Incwm a Gwariant am y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2011. Yna bydd yr holl ddogfennau etc yn cael eu pasio i Mrs Jenkins. Gofynnir i BT i ddatgysylltu ffôn y Cyngor a phan ddaw'r bil terfynol, bydd yn cael ei basio i'r Cyngor ei dalu.

3028 **Penderfyniad Cynllunio: A101001 -** Blaencastell, Penrhyncoch – estyniad: Cymeradwywyd

3029 **Sylwadau ar Gais Cynllunio A110157 - Tir ger Arosfa, Salem: Codi annedd:** Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad

3030 **Cynhelir y Cyfarfod nesaf yn Neuadd y Penrhyn am 7.00pm ar Ddydd Mawrth 19 Ebrill 2011.**

3031 **Cytunwyd i osod yr eitemau canlynol ar yr agenda:**

Canghennau'n crogi dros y ffordd ac yn rhwystr i lorïau rhwng Pant Tyn Pwll â Banc y Darren.

Llwybr Ceffyl 9/51 & 8/17 sy'n rhedeg i'r dwyrain o Flaencastell a thros Fanc Llety Ifan Hen mewn cyflwr corslyd iawn

Llwybr Ceffyl 9/62 hefyd yn gorslyd lle mae'n gadael Mwynglawdd Cwmsymlog islaw'r pwll cyn codi i Fanc Cwmerfyn i ymuno â chulffordd 9/61.

Mynegodd y Cadeirydd, Aelodau'r Cyngor a'r Cynghorydd Sir eu diolchiadau a'u dymuniadau da i Mrs Walker ar eu hymddeoliad a daeth y cyfarfod i ben am 8.45 pm.